# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Cylchlythyr ar Bwyllgorau a Deddfwriaeth

Chwefror 2016

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith pwyllgorau'r Cynulliad a hynt Biliau sy'n cael eu hystyried gan y Cynulliad ar hyn o bryd. Fe'i paratowyd mewn ymateb i adborth gan nifer o randdeiliaid a awgrymodd y byddai'n ddefnyddiol cael cipolwg rheolaidd ar bwyllgorau a deddfwriaeth.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich **adborth**.

## Cynnwys


**Yn fanwl**

01. Craffu ar Fil Cymru drafft yn y Cynulliad

**Y wybodaeth ddiweddaraf am waith Pwyllgorau'r Cynulliad**

02. Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd
03. Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
04. Y Pwyllgor Cyllid
05. Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
06. Y Pwyllgor Deisebau
07. Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
08. Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
09. Y Pwyllgor Menter a Busnes
10. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
11. Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
12. Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

**Deddfwriaeth**


13. Y wybodaeth ddiweddaraf Filiau sy'n cael eu hystyried gan y Cynulliad.


Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Yn fanwl

## 01.Craffu ar Fil Cymru drafft yn y Cynulliad

Cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol y **Bil Cymru drafft** ym mis Hydref 2015 gan gynnig cyfle i'r Cynulliad ac eraill gynnig sylwadau arno cyn cyflwyno'r Bil yn ffurfiol yn Senedd y DU.




Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn gwneud gwaith craffu arweiniol ar y Bil drafft. Fel rhan o'r broses hon, gofynnodd am **farn** ar gynnwys y Bil. Yn ogystal â chael **cyflwyniadau ysgrifenedig**, clywodd dystiolaeth lafar gan academyddion, y Llywydd, y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol. Cynhaliwyd y sesiwn dystiolaeth gydag academyddion ar y cyd â'r **Pwyllgor Materion Cymreig**, sy'n craffu ar y Bil Cymru drafft yn Senedd y DU.

Bu saith o bwyllgorau'r Cynulliad yn edrych yn fanwl ar y Bil drafft yn ystod mis Tachwedd 2015, gan ystyried sut y gallai effeithio ar y meysydd pwnc y mae ganddynt hwy gyfrifoldeb dros graffu arnynt. Amlinellodd pob un o'r pwyllgorau bryderon, gan gynnwys cynnig sylwadau manwl am y cymalau cadw penodol sy'n berthnasol i'w meysydd polisi, ac, o ganlyniad, am y posibilrwydd eu bod yn lleihau cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ysgrifennodd rhai pwyllgorau at yr Ysgrifennydd Gwladol ar y materion hyn. Mae pob gohebiaeth, gan gynnwys ymatebion gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ar gael ar **dudalennau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y we**.

Roedd llawer o randdeiliaid eraill yn mynegi pryderon am y Bil drafft. Fodd bynnag, croesawyd rhai darpariaethau, er enghraifft, mewn perthynas ag etholiadau a threfniadaeth fewnol y Cynulliad.



Teimlai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y dylai egwyddorion **sybsidiaredd, eglurder, symlrwydd ac ymarferoldeb** (508KB) fod yn sail i setliad datganoli newydd. Felly awgrymodd y Pwyllgor newidiadau yn ei **adroddiad**, er mwyn cyflawni nodau'r Ysgrifennydd Gwladol o ran setliad datganoli cryfach, tecach a chliriach a fydd yn para i Gymru. Un dull a awgrymwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol oedd gohirio trafodion a defnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd wrth graffu ar y Bil drafft i baratoi Bil cydgrynhoi mewn cydweithrediad agos â chyfranwyr allweddol, sef: y Cynulliad, Llywodraeth Cymru, ymarferwyr cyfreithiol, y gymdeithas ddinesig a Senedd y DU. Fel dewis arall, dywedodd, pe bai Llywodraeth y DU yn bwrw ymlaen â'r amserlen bresennol, bod angen i'r Bil drafft gael ei ddiwygio, fel bod y Bil a gyflwynir yn Senedd y DU yn cynnwys y canlynol:

- cael gwared ar y prawf angenrheidrwydd neu fod prawf sy'n seiliedig ar briodoldeb yn ei ddisodli;
- system ar gyfer ei gwneud yn ofynnol i sicrhau *caniatadau Gweinidog y Goron* sy'n adlewyrchu'r model yn Neddf yr Alban 1998;
- gostyngiad sylweddol o ran nifer y cymalau cadw a'r cyfyngiadau penodol a'u heffaith;

– awdurdodaeth ar wahân lle mae Deddfau Cymru yn berthnasol i Gymru yn unig;

– system lle y mae Deddfau Cymru yn addasu cyfraith Cymru a Lloegr fel y bo’n briodol ar gyfer gorfodaeth resymol; ac

– ymrwymiad clir y bydd dull cydgrynhoi dwyieithog yn cael ei roi ar waith yn ystod y Senedd bresennol.

Roedd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn teimlo y byddai ei newidiadau arfaethedig yn hanfodol er mwyn galluogi deddfwrfa aeddfed, effeithiol ac atebol. Nododd, a chroesawodd sylwadau’r Ysgrifennydd Gwladol y gallai’r Bil drafft newid yn sylweddol, a’i fod am gydweithio mewn modd adeiladol er mwyn cael y Bil drafft yn gywir.

Cafodd adroddiad y Pwyllgor ei drafod mewn Cyfarfod Llawn yn y Cynulliad ar **13 Ionawr 2016**.

# Y wybodaeth ddiweddaraf am waith Pwyllgorau’r Cynulliad

## 02.Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

– **Gwefan y Pwyllgor**

– **Ebost**

– Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter: **@SeneddAmgylch**

Mae’r **Pwyllgor** yn cau’r Cynulliad gyda chyfres o weithdai i randdeiliaid i lywio’i **waith etifeddiaeth**.

Bydd y gweithdai hyn yn helpu’r Pwyllgor i gasglu gwybodaeth ar gyfer **sesiwn dystiolaeth olaf y Gweinidog ar 25 Chwefror 2016**. Yn dilyn hyn, bydd y Pwyllgor yn paratoi adroddiad a fydd yn cynnwys negeseuon fideo gan randdeiliaid allweddol yn sôn am eu blaenoriaethau ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Caiff yr adroddiad ei lansio mewn derbyniad ar gyfer rhanddeiliaid ar **16 Mawrth 2016** (pan gynhelir cyfarfod olaf y Pwyllgor).

Defnyddir yr adroddiad hwn hefyd i nodi'r prif heriau a’r cyfleoedd y bydd angen i'r pwyllgor olynol eu hystyried wrth ddatblygu ei raglen waith ar gyfer 2016-2021.

Mae'r Pwyllgor yn paratoi adroddiad, '***Dyfodol Ynni Craffach i Gymru?*** ac mae’n gobeithio cyhoeddi hwn ddiwedd mis Chwefror neu ddechrau mis Mawrth. Bydd yr adroddiad yn nodi gweledigaeth y Pwyllgor ar gyfer polisi ynni newydd i Gymru.

## 03.Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

– **Gwefan y Pwyllgor**

– **Ebost**

– Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter: **@SeneddArchwilio**

Bydd y Pwyllgor yn cwblhau un ymchwiliad sydd ar y gweill i’r modd **yr aeth Llywodraeth Cymru at i gaffael a pherchnogi maes awyr Caerdydd.** Cyhoeddir yr adroddiad terfynol cyn diwedd y tymor ynghyd ag adroddiadau terfynol ar waith dilynol y Pwyllgor ar **lywodraethu Bwrdd Iechyd** ac adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor.



Yn ei gyfarfod ar 23 Chwefror bydd y Pwyllgor yn craffu ar waith Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth

Cymru yn ymwneud â’i adroddiad blynyddol ar reoli grantiau. Bydd y Pwyllgor hefyd yn defnyddio’r sesiwn hon i gael gwybodaeth ar gyfer ei adroddiad etifeddiaeth a bydd yn trafod y materion a ganlyn gyda’r Ysgrifennydd Parhaol: gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ystod y Cynulliad hwn; a fu’r gwaith yn llwyddiannus ac a oedd o gymorth i Lywodraeth Cymru wrth iddi ddatblygu polisïau a llywodraethu; ac a yw’r Pwyllgor wedi ymgysylltu â swyddogion cyfrifyddu’n effeithlon ac yn effeithiol. Bydd hefyd yn holi’r Ysgrifennydd Parhaol ynghylch ei syniadau ar gyfer y pwyllgor olynol a’r modd y bydd yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn y pumed Cynulliad.

Cyn diwedd y tymor, mae'r Pwyllgor hefyd yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymateb i adroddiadau a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar **fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Seilwaith Band Eang y Genhedlaeth Nesaf** a **Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio**. Disgwylir ymatebion cyn diwedd y tymor hefyd gan y cyrff y craffwyd ar eu **cyfrifon ar gyfer 2014-15** yn ystod tymor yr hydref 2015.

## 04.Y Pwyllgor Cyllid

- **Gwefan y Pwyllgor**
- **Ebost**
- Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter: **@SeneddCyllid**

Bydd y Pwyllgor yn cwblhau dau ymchwiliad, i **Ddyfodol Cyllido Cymru** ac i **Etifeddiaeth Pwyllgor Cyllid y Pedwerydd Cynulliad**. Cyhoeddir adroddiadau terfynol yr ymchwiliadau cyn diwedd y tymor.

Yn dilyn ei **Ymgynghoriad ar Fil Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) drafft** bydd y Pwyllgor yn ystyried newidiadau arfaethedig i’r Bil drafft ac yn penderfynu ar y cam nesaf yn yr ymchwiliad hwn.

Yn ei **gyfarfod ar 24 Chwefror** bydd y Pwyllgor yn ystyried Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru 2015-16 ac yn cyhoeddi adroddiad yn fuan ar ôl hynny, a bydd y ddadl ar y gyllideb yn cael ei chynnal ar 8 Mawrth.



Yn ddiweddar, ystyriodd y Pwyllgor welliannau i’r **Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)**. Bydd trafodion Cyfnod 3 yn digwydd ym mis Mawrth. Mae’r Pwyllgor wedi adrodd ar **Gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-17**, a bwriedir cynnal y ddadl derfynol ar y gyllideb ar 8 Mawrth.

## 05.Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

- **Gwefan y Pwyllgor**
- **Ebost**
- Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter: **@SeneddCCLLL**

Dechreuodd y Pwyllgor y Flwyddyn Newydd drwy graffu pump o Weinidogion Cymru ynghylch agweddau ar **gyllideb ddrafft 2016-17** sydd o fewn **cylch gorchwyl y Pwyllgor**, gan gynnwys y Gymraeg, llywodraeth leol, tai a diwylliant. Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Pwyllgor Cyllid, fel y Pwyllgor â chyfrifoldeb am ystyried cyllideb Llywodraeth Cymru o safbwynt strategol, gan amlinellu ei bryderon a'i gasgliadau.

Mae Pwyllgor bron wedi cwblhau ei **ymchwiliad i’r Adolygiad o Siarter y BBC** a'r goblygiadau i Gymru; caiff yr adroddiad ei gyhoeddi ar ôl toriad

hanner tymor. Mae hefyd disgwyl i'r Pwyllgor gwblhau ei waith craffu ar **Fil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft** yn yr wythnosau nesaf.

Yn ystod y tymor hwn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi treulio amser yn craffu'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi ar **ddulliau o drechu tlodi yn y gymuned**, ac mae wedi cymryd tystiolaeth gan yr un Gweinidog yn ystod trafodaeth ar y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar ei newydd wedd gan Lywodraeth Cymru.




Ar ôl toriad hanner tymor, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar gwblhau ei waith ar **etifeddiaeth y Pedwerydd Cynulliad**.

## 06.Y Pwyllgor Deisebau

– **Gwefan y Pwyllgor**

– **Ebost**

– Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter: **@SeneddDeisebau**

Bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried deisebau derbyniadwy. Mae'r Pwyllgor wrthi'n cwblhau adroddiad ar ei adolygiad o ddeisebau, a gaiff ei gyhoeddi maes o law. Mae gan y Pwyllgor dri chyfarfod arall ar y gweill cyn y diddymiad, ac mae'r rheini ar 2 a 23 Chwefror ac 8 Mawrth.

## 07.Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

– **Gwefan y Pwyllgor**

– **Ebost**

– Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter: **@SeneddIechyd**

Bydd gwanwyn 2016 yn dymor prysur gan y bydd y Pwyllgor yn cwblhau ei waith craffu deddfwriaethol ac ariannol, ac yn ailedrych ar rai o'r darnau sylweddol o waith y mae wedi ymgymryd â nhw yn ystod y Pedwerydd Cynulliad.

Cwblhawyd darn cyntaf o waith y Pwyllgor eleni ar 19 Ionawr, sef **casgliadau ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17**. Y diwrnod wedyn cyhoeddwyd llythyr at y Dirprwy Weinidog Iechyd yn amlinellu'r prif **faterion sy'n deillio o'r ymchwiliad undydd dilynol i berfformiad y gwasanaethau ambiwlans Cymru**; disgwylir ymateb i'r casgliadau yn fuan ar ôl y toriad hanner tymor.



Ar **20 Ionawr** clywodd y Pwyllgor gan y Comisiynydd Pobl Hŷn am y gwaith a wnaeth i adeiladu ar gasgliadau'n hymchwiliad eang yn 2011-12 i ofal preswyl. Cafodd y Pwyllgor hefyd **wybodaeth ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r argymhellion a gyflwynwyd yn 2012**. Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei gasgliadau diweddaraf yn ystod mis Chwefror.

Y tymor hwn, bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)** Llywodraeth Cymru, a bydd angen ystyried holl welliannau Cyfnod 2 erbyn 4 Chwefror. Treuliodd y Pwyllgor ran sylweddol o dymor yr haf a thymor yr hydref yn craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a chyhoeddwyd ei **Adroddiad Cyfnod 1** ym mis Tachwedd 2015.

Daw busnes y Pwyllgor i ben ym mis Mawrth pan fydd y Pwyllgor yn cwblhau ei adroddiad etifeddiaeth. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio'r **sylwadau a gafwyd gan rhanddeiliaid** ac yn rhoi barn am y gwersi sydd wedi'u dysgu, y dylanwad a gafwyd, a themâu y credir a fydd yn ganolog i waith y pwyllgor a fydd yn ei olynu.

## 08.Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

- **Gwefan y Pwyllgor**
- **Ebost**
- Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter: **@SeneddMCD**

Y tymor hwn, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar waith etifeddiaeth. Mae'r Pwyllgor yn disgwyl clywed tystiolaeth gan y Prif Weinidog, mewn sesiwn a fydd yn adleisio'r themâu sy'n codi yn sgîl **ymchwiliadau polisi'r** Pwyllgor, a chraffu deddfwriaethol ar **filiau** ac **is-ddeddfwriaeth** dros gyfnod y Pedwerydd Cynulliad yn ei gyfanrwydd.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn gorffen ei waith ar agenda Llywodraeth y DU ar ddiwygio'r Undeb Ewropeaidd, yn dilyn ei ymweliad â Brwsel yn ystod tymor yr Hydref. Mae'r gwaith hwn yn debygol o ystyried y datblygiadau yn dilyn cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Chwefror, lle y mae mawr ddisgwyl y bydd cynrychiolwyr yn cytuno ar **y pedwar maes y mae Llywodraeth y DU am eu diwygio**.

Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried pob Offeryn Statudol a osodir gan Lywodraeth Cymru. Disgwylir y bydd cynnydd yn yr Offerynnau Statudol wrth inni nesáu at y diddymu.

## 09.Y Pwyllgor Menter a Busnes

- **Gwefan y Pwyllgor**
- **Ebost**
- Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter: **@SeneddBusnes**

Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar **Botensial yr Economi Forol yng Nghymru** a chynhaliwyd dadl yn y cyfarfod llawn [3 Chwefror] yn trafod ei waith yn edrych ar y trefniadau trafnidiaeth ar gyfer **Cwpan Rygbi'r Byd**.

Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi tri adroddiad pellach dros wythnosau olaf y tymor, ac yn parhau i graffu ar ystod o faterion polisi.

Bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad byr yn asesu hynt y Ddeddf Teithio Llesol yn dilyn sesiynau **casglu tystiolaeth ym mis Ionawr**, ac adroddiad manylach ar Fysiau a Thrafnidiaeth Gymunedol. Yn ystod mis Chwefror, mae'r Pwyllgor yn cymryd **tystiolaeth am ddyfodol y seilwaith rheilffyrdd yng Nghymru** er mwyn sicrhau bod ei adroddiad yn cyfrannu at benderfyniadau hanfodol dros yr haf am y rhwydwaith rheilffyrdd. Ar 3 Mawrth, bydd y Pwyllgor yn ystyried y pwysau y mae'r diwydiant dur yn eu hwynebu, ac yn ddiweddarach y mis hwnnw yn cwblhau adroddiad etifeddiaeth a fydd yn cynnwys argymhellion ar gyfer y pwyllgor a fydd yn ei olynu yn y Pumed Cynulliad.

## 10.Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

– **Gwefan y Pwyllgor**

– **Ebost**

– Dilynwch y Pwyllgor ar Twitter: **@SeneddPPIA**

Y tymor hwn, bydd y Pwyllgor yn canolbwyntio ar hynt y gwaith ers cyhoeddi ein **hadroddiad Mabwysiadu** (PDF, 1.12MB) ym mis Tachwedd 2012. Mae'r Pwyllgor yn cymryd tystiolaeth lafar ar hyn o bryd ac yn clywed gan dystion, gan gynnwys Adoption UK, Comisiynydd Plant Cymru a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Hefyd, bydd y Pwyllgor yn cwrdd â rhieni sydd wedi mabwysiadu neu sydd wrthi'n mabwysiadu i glywed mwy am eu profiadau. Bydd adroddiad ar y gwaith hwn yn cael ei gyhoeddi tuag at ddiwedd y Cynulliad hwn.

Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro datblygiad polisïau a rhaglenni CAMHS. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar waith yn y maes hwn ar 10 Chwefror.

Ym mis Rhagfyr, cwblhaodd y Pwyllgor y gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil Drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru), ac **ysgrifennodd at y Gweinidog** (PDF, 330KB). Ymatebodd y Gweinidog ar **19 Ionawr** (PDF, 219KB).



Yn ddiweddar, cyhoeddodd y Pwyllgor adroddiadau'r ymchwiliadau mewn perthynas â **Gwaith Athrawon Cyflenwi** (PDF, 1.2MB) a **Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg** (PDF, 1.53MB) a fydd yn cael eu trafod yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad ar 10 a 24 Chwefror yn y drefn honno.

Bydd y Pwyllgor yn cwblhau ei adroddiad etifeddiaeth ym mis Mawrth, a fydd yn cynnwys argymhellion i'r pwyllgor a fydd yn ei olynu yn y Pumed Cynulliad. Fel rhan o'r gwaith hwn, casglwyd safbwyntiau dros fil o blant a phobl ifanc o bob cwr o Gymru, a bydd yr adroddiad terfynol yn adlewyrchu eu blaenoriaethau.

## 11.Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

– **Gwefan y Pwyllgor**

– **Ebost**

Cyn diwedd y Cynulliad, bydd y Pwyllgor yn ystyried:

– rheolau mewn perthynas â lobïo mewn seneddau eraill;

– canllawiau ar ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol.

Hefyd, ceir y wybodaeth ddiweddaraf am y cod ymddygiad, ac mae'r Pwyllgor yn gobeithio cytuno ar 'Grynodeb o'r Dogfennau ar gyfer safonau'.  Bydd yr adroddiad blynyddol ar y Grwpiau Trawsbleidiol yn cael ei ystyried a bydd y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed yn dilyn adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad o ran Cofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau.  Yn benodol, y diweddaraf o ran Argymhelliad 11 ynghylch 'cofrestru dwbl' ac argymhelliad 15 ynghylch torri Rheol Sefydlog 2.

Hefyd, bydd cyfnod y Comisiynydd Safonau presennol yn dod i ben ym mis Hydref, ac mae'r broses o recriwtio Comisiynydd newydd yn mynd rhagddi.

## 12.Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

– Gwefan y Pwyllgor

– Ebost

Bydd y Pwyllgor yn cynnal ei gyfarfod olaf yn y Cynulliad hwn ar 26 Chwefror rhwng 11:15 a 13:15. Yn y cyfarfod hwn, adolygir materion a ystyriwyd mewn cyfarfodydd blaenorol yn ystod y Cynulliad hwn.

# Deddfwriaeth

## 13.Y wybodaeth ddiweddaraf Filiau sy'n cael eu hystyried gan y Cynulliad.

– **www.cynulliad.cymru/deddfau**.

### Biliau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Cynulliad wrthi'n ystyried dau Fil a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru: **Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru)**; a'r **Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru)**. Ar hyn o bryd, mae'r ddau Fil yn destun gweithdrefnau Cyfnod 3 ym mhroses ddeddfu'r Cynulliad. (Yn ystod y cyfnod hwn, gall Aelodau'r Cynulliad gynnig gwelliannau i newid testun y Bil; yna, bydd yr Aelodau'n trafod y gwelliannau hyn ac yn pleidleisio arnynt yn y Cyfarfod Llawn). Bydd y Cynulliad yn pleidleisio ar destunau terfynol y ddau Fil ym mis Mawrth 2016.

Pasiodd y Cynulliad **Fil yr Amgylchedd (Cymru)** ar 2 Chwefror 2016; a phasiodd **Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)** ar 9 Chwefror 2016. Mae'r ddau Fil yn awr yn destun 'cyfnod hysbysu.' Yn ystod y cyfnod hwn, gall y Cwnsler Cyffredinol neu'r Twrnai Cyffredinol gyflwyno cwestiwn i'r Goruchaf Lys ynghylch a yw Bil (neu unrhyw ddarpariaeth ynddo) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yn ogystal, gall Ysgrifennydd Gwladol Cymru wneud Gorchymyn sy'n gwahardd Clerc y Cynulliad rhag cyflwyno Bil at ddibenion cael Cydsyniad Brenhinol (os oes ganddo sail resymol dros gredu bod amodau penodol yn berthnasol). Os nad oes her o'r fath yn codi, bydd y Biliau'n symud yn eu blaen tuag at Gydsyniad Brenhinol.

### Biliau a gyflwynwyd gan Aelodau Cynulliad unigol

Bydd y Cynulliad yn penderfynu ar 10 Chwefror 2016 a ddylid pasio testun terfynol y **Bil Lefelau Staff Nyrsio (Cymru)**. Os caiff y Bil ei basio, bydd yn destun cyfnod hysbysu o bedair wythnos.

Cafodd tri Bil arall eu cyflwyno gan Aelodau'r Cynulliad, ond nid ydynt yn cael eu hystyried gan y Cynulliad ar hyn o bryd:

– yn dilyn adroddiad ym mis Hydref 2014 ar egwyddorion cyffredinol **y Bil Meysydd Carafannau Gwyliau (Cymru)** gan y **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol,** nid yw'r Aelod sy'n gyfrifol wedi cyflwyno cynnig bod y Cynulliad yn cymeradwyo egwyddorion cyffredinol y Bil.

– yn dilyn dadl ar egwyddorion cyffredinol y **Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)** ar 26 Tachwedd 2014, tynnodd yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil y cynnig bod y Cynulliad yn cymeradwyo ei egwyddorion cyffredinol yn ôl. Ni chyflwynwyd cynnig i gymeradwyo egwyddorion cyffredinol y Bil yn dilyn hynny.

– o ran y **Bil Adennill Costau Meddygol ar gyfer Clefydau Asbestos (Cymru)**, dyfarnodd y Goruchaf Lys ar y Bil ar 9 Chwefror 2015. Canfu'r Goruchaf Lys nad oes gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol i weithredu'r Bil ar ei ffurf bresennol. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.53, gall unrhyw Aelod Cynulliad gynnig bod y Bil yn symud ymlaen i'r Cyfnod Ailystyried, ond nid oes unrhyw gynnig o'r fath wedi'i wneud hyd yma.